# Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol

### Adnodd addysgu i athrawon

Mae'r pecyn hwn wedi'i ysgrifennu er mwyn helpu athrawon i gynllunio ymweliad llwyddiannus, gydag argymhellion ar gyfer gweithgareddau cyn ymweld, syniadau wrth ymweld â'r arddangosfa a phethau i'w gwneud yn y dosbarth ar ôl ymweld.

### Yr Arddangosfa

Mae arddangosfa Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol yn daith gyffrous o ddarganfyddiadau ac antur. Wrth edrych ar waith a straeon rhai o archaeolegwyr ac anturiaethwyr enwocaf y byd, gallwn archwilio hanes a gwyddoniaeth archaeoleg a'r portread o'r pwnc mewn diwylliant poblogaidd.

### Cyn eich ymweliad

Trafodwch –

- Beth yw archaeoleg? Ditectifs yw archaeolegwyr. Maent yn darganfod ac yn archwilio'r dystiolaeth hanesyddol sydd o dan ein traed. Gwnewch ymchwil i'r gwaith y mae archaeolegwyr yn ei wneud a'r offer y maent yn ei ddefnyddio wrth gloddio.
- Beth yw trysor? Gall fod yn wrthrych gwerthfawr neu'n rhywbeth sgleiniog! I archaeolegydd, mae unrhyw dystiolaeth o'r gorffennol yn drysor. Trafodwch y syniad nad yw trysor bob amser yn golygu pethau sgleiniog a '*bling*'. Beth mae trysor yn ei olygu i chi?
- Beth yw amgueddfa? Beth hoffech chi ei weld yn cael ei arddangos mewn amgueddfa? Ydych chi'n meddwl y dylai 'trysorau' pobl gael eu cadw gartref neu mewn amgueddfa?
- Dyluniwch eich arddangosfa/amgueddfa eich hun. Beth fyddech chi'n ei arddangos? Ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn wahanol wedi i chi weld yr arddangosfa?

***Geiriau i'w hystyried: archaeoleg, archaeolegydd, antur, ditectif, arddangosfa, casgliad, oriel, curadur, diriaethol a haniaethol***




## Yn yr arddangosfa

Mae cymaint o wrthrychau/ trysorau yn yr arddangosfa, byddai'n amhosibl i restru pob un. Dyma rai syniadau i'w trafod:

- Annog eich dosbarth i feddwl am amserlen.
- Meddwl am gyfri a threfnu gwrthrychau drwy ofyn cwestiynau. I beth mae'n debyg? Pa un yw'r mwyaf?
- Oes unrhyw un ohonoch yn casglu rhywbeth? Oes yna wrthrychau all gael eu casglu ynghyd?
- Mae'r delweddau ar y potiau paentiedig (yr Hen Fyd) yn rhoi syniad i ni o fywyd a diwylliant yr Hen Roeg. Beth fyddech chi'n ei baentio ar botiau nawr i roi syniad i genedlaethau'r dyfodol ynghylch eich bywyd a'ch diwylliant chi?
- Beth mae'r gwrthrychau yn yr oriel yn ei ddweud wrthym am fywydau'r bobl?
- Trafodwch y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu – e.e. hieroglyffau. All y plant ysgrifennu eu henw yn y dull hwn, neu greu neges gudd?
- Gofynnwch i'r disgyblion ddewis eu hoff eitem, yn unigol neu mewn grwpiau, a gofynnwch iddynt adrodd yn ôl i weddill y dosbarth.
- Ysgrifennwch label ar gyfer yr eitem.
- Trafodwch pam ei bod yn bwysig ysgrifennu labeli ar gyfer gwrthrychau. Pa fath o wybodaeth ddylai fod arnynt?
- Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i'w hoff straeon yn yr arddangosfa.
- Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am eitem sy'n eu cynrychioli nhw fel person. Oes rhywbeth tebyg i'r eitem hon yn yr arddangosfa? Fyddai'r gwrthrych hwnnw yn rhoi syniad i genedlaethau'r dyfodol ynghylch eu personoliaeth a diddordebau?
- Oes rhai o'r gwrthrychau a'r arferion wedi goroesi hyd heddiw?
- Beth ydych chi'n feddwl yw'r trysor mwyaf gwerthfawr yn yr arddangosfa, a pham?
- Os gallech chi fod yn gynorthwyydd i un o'r archaeolegwyr enwog, pa un fyddech chi'n ddewis a pham?
- 'Y sawl sy'n canfod sy'n cadw' – ai fel hyn ddylai hi fod?





***Mae sawl 'trysor' yn yr Amgueddfa sy'n werthfawr mewn gwahanol ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau i chwilio amdanynt:***

- Craig o'r lleuad (*Oriel Esblygiad Cymru*) – y gwrthrych drytaf yn yr Amgueddfa, am ei bod yn unigryw


- Crwban Môr Lledrgefn (*Oriel Bywyd yn y Môr*) – Y crwban môr mwyaf yn y byd, cafodd ei ddarganfod yn Harlech

- Babi deinosor (*Orielau Hanes Natur Is*) – Sgerbwd y deinosor cigysol cyntaf i gael ei ddarganfod yng Nghymru

- 'Glaw' gan Van Gogh (*Oriel 16*) – un o ddarluniau olaf yr artist cyn ei farwolaeth


- Casgliad y Chwiorydd Davies (Oriel 16). Roedd Gwendoline a Margaret Davies, dwy chwaer o ganolbarth Cymru, yn berchen ar un o gasgliadau celf gorau Prydain yn yr 20fed ganrif. Fe roddon nhw 260 o weithiau celf i Amgueddfa Cymru. Mae nifer  yn ystyried y casgliad yn un o drysorau Cymru!

Mae map o'r Amgueddfa ar gael o'r ddesg yn y Neuadd Fawr.


## Nôl yn y dosbarth

- Trafodaeth – Beth oedd eich barn chi am yr arddangosfa? Ai dyma oeddech chi'n ei ddisgwyl? Fyddai eich arddangosfa/amgueddfa chi yn wahanol a chithau wedi gweld yr arddangosfa? Beth fyddech chi wedi'i wneud yn wahanol?
  Yw'r gair 'trysor' yn golygu rhywbeth gwahanol i chi nawr? Meddyliwch am drysorau eraill sy'n bwysig - enwau llefydd, iaith, caneuon ac ati.
- Rhowch flwch o drysorau personol at ei gilydd – yn cynnwys trysorau go iawn a rhai haniaethol.
- Ewch i wefan Casgliad y Werin Cymru a defnyddio'i adnoddau i greu eich amgueddfa'ch hun ar-lein. www.casgliadywerin.cymru.
- Gwnewch ymchwil ar rai o'r archaeolegwyr yn yr arddangosfa – Tessa a Mortimer Wheeler, Belzoni, Petrie neu Bingham.
- Ysgrifennwch ddyddiadur – diwrnod ym mywyd archaeolegydd.


- Gwnewch ymchwil ar y broses o greu mymi. Dyluniwch shabti (model i goffáu) a bedd.




- Diwylliant poblogaidd
  - Dyluniwch boster ar gyfer ffilm antur yn adrodd hanes un o'r archaeolegwyr enwog.
  - Ysgrifennwch gomic ynghylch anturiaethau archaeolegydd.
  - Mewn grwpiau, ysgrifennwch a pherfformiwch olygfa fer ynghylch darganfod trysor.

  Pa drysorau fyddwn ni'n eu gadael i genedlaethau'r dyfodol?
  - Crëwch gapsiwl amser fel dosbarth. Trafodwch a meddyliwch am y problemau amgylcheddol: gwrthrychau fydd ddim yn pydru. Beth fyddai'r 'trysorau' gorau i'w gadael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

**Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Gadewch i ni wybod beth fyddai'n cael ei arddangos yn eich amgueddfa chi. Silff-ben-tân ynteu amgueddfa? Gyrrwch eich negeseuon Twitter at #trysoraucaerdydd**